

Archwilio Pam

Dŵr



**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Archwilio Pam

Dŵr

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO PAM

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwmpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd. Gyda'i gilydd maen nhw'n archwilio bara, goleuni, fêl, croes, menora a dŵr, ac yna maen nhw'n cymryd rhan mewn Gŵyl Ffydd lle maen nhw'n cofio am bob un o'r symbolau ffydd hyn ac yn eu dathlu.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau yn y gyfres wedi'u hanelu at blant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer dysgwyr iau a hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae saith o lyfrau stori yn y gyfres *Archwilio Pam*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr

amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol. Y saith llyfr stori a'r traddodiadau crefyddol yw:

- Croes (Cristnogol)
- Bara (Cristnogol)
- Fêl (Mwslimaidd)
- Dŵr (Mwslimaidd)
- Menora (Iddewig)
- Goleuni (Iddewig)
- Symbolau Ffydd (yn dod â'r tri thraddodiad crefyddol ynghyd mewn dathliad o gredoau)

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrdau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 140 o syniadau am weithgareddau a 10 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres Archwilio Pam

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam

Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth sy'n arnofio a beth sy'n suddo mewn dŵr, a pham
- Sut mae olwyn ddŵr yn gweithio?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Lluniwch gerdd am yr hwyaden
- Siaradwch gyda'ch gilydd am y dŵr yn troelli

Datblygiad iaith Gymraeg

- dŵr poeth
- oer

Datblygiad corfforol

- Llenwch gwpan â dŵr a cheisiwch ei gario heb golli dim o'r dŵr
- Dyfeisiwch gêm am hwyaden, neu chwaraewch gêm sy'n gyfarwydd i chi (e.e. Hwyaden, hwyaden, gwydd)

Datblygiad creadigol

- Torrwch siapiau hwyaid o gerdyn a'u lliwio, a gwnewch batrwm hwyaid (**Gweithgaredd 1**)
- Cyfansoddwch gân gan ddefnyddio synau a seiniau dŵr


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol



- Dysgwch am y bobl sydd heb ddŵr rhedegog yn eu cartrefi
- Lluniwch restr o bethau y gallech chi eu gwneud er mwyn helpu i ddefnyddio llai o ddŵr



Datblygiad mathemategol



- Defnyddiwch y siapiau hwyaid i lunio siart rif er mwyn helpu cyfrif fesul 2, fesul 5 neu fesul 10 (**Gweithgaredd 1**)
- Amcangyfrifwch sawl llond llwy fwrdd o ddŵr sy'n llenwi cwpan

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol











Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth sy'n gwneud y rhew, neu'r iâ, yn y rhewgell
- Holwch ynghylch beth sy'n gwneud y stêm yn y tegell

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am y gwahanol bethau sydd i'w gweld yn yr oergell, a pham mae'r pethau hyn yn cael eu rhoi yn yr oergell
- Adroddwch stori am ddŵr oer o'r oergell

Datblygiad iaith Gymraeg

- iâ oer
- stêm poeth

Datblygiad corfforol

- Gweithiwch gyda'ch gilydd i lunio dawns y tegell yn berwi
- Rhowch gynnig ar ddal ciwb rhew/ iâ yn llonydd ar gledr eich llaw

Datblygiad creadigol

- Lluniwch gerflun trwy ddefnyddio poteli dŵr gwag
- Llenwch boteli gwydr â gwahanol gyfeintiau o ddŵr, ac archwiliwch y seiniau ddaw o'r poteli wrth i chi eu taro neu chwythu iddyn nhw
(Gweithgaredd 2)

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Dysgwch sut mae rhai pobl yn cario dŵr o ffynhonnau
- Dychmygwch sut beth yw bod yn sychedig iawn

Datblygiad mathemategol

- Sawl cwpan allwch chi ei lenwi o un botel o ddŵr?
- Archwiliwch dymheredd amrywiaeth o eitemau (e.e. o becyn rhew/ iâ i botel ddŵr poeth a'u gosod mewn trefn o'r oeraf i'r poethaf)

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol



Ymatebion
personol




Cwestiynau




Llenwch bedair potel wydr â gwahanol swm o ddŵr.
Pa seiniau mae'r poteli'n eu gwneud pan fyddwch chi'n eu taro?



Nawr cyfansoddwch a chofnodwch alaw drwy farcio llinellau
dŵr ar bob potel. Gofynnwch i ffrind roi cynnig ar chwarae
eich alaw.





Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch pa bethau sydd angen dŵr i fyw, a pha bethau sydd ddim angen dŵr (**Gweithgaredd 3**)
- Plannwch hadau, eu dyfrhau, a sylwi ar y planhigion yn tyfu

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Lluniwch stori ddychmygol am ardd Mr Roberts
- Archwiliwch wahanol liwiau ar gyfer caniau dŵr, a lluniwch siart i ddangos pa liw yw'r mwyaf poblogaidd ymysg plant eich dosbarth

Datblygiad iaith Gymraeg

- gwyrdd
- coch

Datblygiad corfforol

- Mewn parau, cymrwch eich tro i smalio eich bod yn gan dŵr ac yn blanhigyn sy'n tyfu
- Ewch am dro i weld gerddi neu barc

Datblygiad creadigol

- Lluniwch fodel o ardd gyda phridd, cerrig bach, brigau, dail a deunyddiau eraill
- Paentiwch luniau o ganiau dŵr gwahanol liw ar bapur gwlyb, ac ar bapur sych

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol


- Meddyliwch am bobl sydd angen help i ddyfrhau eu gerddi
- Sylwch fel mae blodau a phlanhigion yn gwneud eich ardal yn harddach, a chasglwch luniau i wneud arddangosfa yn eich dosbarth

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch faint o hadau sydd mewn paced o hadau
- Faint o ddŵr sydd ei angen i lenwi'r can dŵr

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol

















Beth sydd angen dŵr?

Torrwch allan y sgwariau lluniau a'r sgwariau geiriau.

- Lluniwch un grŵp o bethau sydd angen dŵr i fyw.
- Lluniwch grŵp arall o bethau sydd ddim angen dŵr.
- Allwch chi baru'r gair cywir â phob llun?





plant

pysgodyn

cwpan

ci

pryfyn

pensil

planhigyn

aderyn

doli

coeden

hwyaden

cadair



Tudalen 10



Tudalen 11

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Allwch chi feddwl am unrhyw drefi neu ddinasoedd sydd wedi eu codi ar lan afon, a pham?
- Siaradwch a holwch ynghylch pa fath o ddŵr sydd ei angen ar bysgod

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Lluniwch bennill am y cwch hwylio
- Dewiswch un cymeriad o'r llun a dywedwch beth maen nhw'n ei feddwl (**Gweithgaredd 4**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- cwch
- pysgodyn

Datblygiad corfforol

- Dychmygwch eich bod yn rhwyfo mewn cwch ar yr afon a bwriwch eich rhwyd i'r dŵr
- Dychmygwch ddal gwialen bysgota'n llonydd iawn

Datblygiad creadigol

- Lluniwch gwch papur a'i hwylio ar y dŵr
- Dyluniwch a gwnewch lun eich pysgodyn arbennig chi


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Siaradwch am sut i fod yn ddiogel yn ymyl dŵr
- Dysgwch am bobl sy'n mynd i bysgota yn y môr

Datblygiad mathemategol


- Holwch ynghylch faint o'r plant yn y dosbarth sydd wedi cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau glan dŵr sydd i'w gweld ar dudalen 11, a chyflwynwch y wybodaeth hon yn glir i eraill
- Amcangyfrifwch uchder y cwch

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Beth maen nhw'n ei feddwl?





Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Trafodwch pam mae pobl yn golchi eu dwylo a'u hwyneb
- Beth yw'r dull gorau o olchi eich dwylo?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Arbrowfch gyda'r gwahanol synau y mae dŵr yn ei wneud, a thrafodwch **(Gweithgaredd 5)**
- Lluniwch gerdd am ddŵr gan ddefnyddio eich geiriau 'dyfrllyd'

Datblygiad iaith Gymraeg

- sebon
- ymolchi

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i olchi eich dwylo yn y ffordd orau
- Lluniwch ddawns i ddehongli sut mae germau ar ein dwylo'n lluosogi

Datblygiad creadigol

- Casglwch hysbysebion sebon i wneud collage
- Lluniwch boster yn ymwneud ag ymolchi

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Archwiliwch pa mor bwysig yw golchi eich dwylo cyn bwyta
- Archwiliwch sut mae ymolchi'n adfywio pobl

Datblygiad mathemategol








- Faint o weithiau mewn diwrnod mae plant eich dosbarth yn golchi eu dwylo?
- Faint o weithiau mewn diwrnod mae plant eich dosbarth yn glanhau eu dannedd?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Geiriau dyfrllyd





Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Siaradwch am y rheswm pam fod pobl yn treulio amser yn paratoi eu hunain ar gyfer gwneud pethau arbennig
- Dysgwch pam mae Mwslimiaid yn tynnu eu hesgidiau cyn mynd i mewn i'r mosg

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Lluniwch restr o wahanol fathau o esgidiau, a siaradwch am eu pwrpas
- Siaradwch am y rheswm pam ei bod yn bwysig tynnu esgidiau

Datblygiad iaith Gymraeg

- esgidiau
- sandalau

Datblygiad corfforol

- Dysgwch gau esgidiau rhywun arall
- Chwaraewch rôl cerdded a symud mewn gwahanol fathau o esgidiau

Datblygiad creadigol

- Gwrandewch ar gerddoriaeth glasurol sy'n ymwneud â dŵr, gan ymateb i'r gerddoriaeth
- Dyluniwch esgid ar gyfer eich hoff weithgaredd

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Holwch ynghylch gwahanol arferion lle mae angen tynnu esgidiau
- Gwnewch ymchwil i esgidiau traddodiadol o wahanol leoedd ledled y byd (**Gweithgaredd 6**)

Datblygiad mathemategol

- Mesurwch faint eich traed gan ddefnyddio mesurydd safonol
- Faint o wahanol fathau o esgidiau allwch chi eu gweld yn yr ystafell ddosbarth?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol







Esgidiau o wahanol leoedd ledled y byd

Gwnewch ymchwil i esgidiau o wahanol leoedd y byd.

Ychwanegwch luniau neu eiriau wrth ochr wledydd ar y map.





Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch wahanol fathau o lyfrau
- Holwch ynghylch sut a pham mae pobl yn defnyddio llyfrau

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Darllenwch surah 5 o'r Qur'an, sy'n sôn am ymolchi cyn gweddio (**Gweithgaredd 7**)
- Ysgrifennwch eich gweddi bersonol eich hun

Datblygiad iaith Gymraeg

- ymolchi
- gweddio

Datblygiad corfforol

- Pa mor gyflym y gallwch chi eistedd i lawr a neidio i fyny wrth i rywun ofyn i chi wneud hynny
- Archwiliwch wahanol ffyrdd o eistedd

Datblygiad creadigol

- Gnewch ddiod (gan ddefnyddio dŵr) i Ahmed a Salma ei rhannu
- Lluniwch orchudd arbennig ar gyfer y Qur'an

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Gan edrych yn ofalus ar y lluniau, gwelwch sut mae Ahmed a Salma'n dangos eu parch tuag at y Qur'an
- Beth ydych chi'n ei barchu, a sut byddwch chi'n dangos hynny?

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch adegau gweddio Mwslimiaid a'u cofnodi ar dempledi cloc
- Ar dempledi cloc, cadwch gofnod o'r pethau y byddwch yn eu gwneud bob dydd

**Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol**





Darllenwch ac addurnwch y geiriau hyn o surah 5 yn y Qur'an.
Beth mae hyn yn ei ddweud wrthyh chi am weddi Fwslimaidd?

The Qur'an surah 5

O, chi sydd wedi credu,
pan fyddwch yn codi i
weddïo, ymolchwch eich
wyneb a'ch breichiau hyd at
y penelin a rhowch rwbïad
dros eich pen a golchwch
eich traed hyd at
y fferau.



Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth mae Mwslimiaid yn ei wneud os nad oes dŵr ar gael i ymolchi cyn gweddio
- Holwch ynghylch y manau sychaf ar y ddaear

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Beth mae'r Bismillah yn ei ddweud wrthyh chi am Allah?
- Nodwch batrwm ymolchi Mwslimiaid cyn iddyn nhw weddio (Gweithgaredd 8)

Datblygiad iaith Gymraeg

- Dwylo, ceg, trwyn, wyneb, braich, pen, traed

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch rôl Aled a Siân yn ymolchi, gan ddisgrifio i eraill beth ydych chi'n ei wneud
- Smaliwch lanhau'r sinc ar ôl ei defnyddio

Datblygiad creadigol

- Gwnewch amlinelliad o'ch dwylo a'ch traed a lluniwch ffris ohonyn nhw
- Ysgrifennwch y Bismillah ar boster a'i addurno

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Sut mae'n teimlo wrth i chi ymolchi yn y ffordd arbennig hon?
- Siaradwch am beth mae'n ei olygu i fod yn lân ar 'y tu mewn' yn ogystal ag ar 'y tu allan'

Datblygiad mathemategol

- Pa mor hir mae'n ei gymryd i ymolchi yn y ffordd hon?
- Siaradwch am sut y gallech chi fesur y swm o ddwr sy'n cael ei ddefnyddio yn ystod y ddefod o ymolchi

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol











Ymolchi cyn gweddïo


Torrwch allan y lluniau a'r geiriau unigol.

- Parwch y geiriau a'r lluniau
- Rhowch y geiriau a'r lluniau yn nhrefn yr ymolchi ar gyfer y gweddïo Mwslimaidd

dwlo		breichiau	
ceg		pen	
trwyn		traed	
wyneb			



Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch tuag at ble mae Mwslimiaid yn wynebu wrth weddïo
- Sut gallwch chi ddod o hyd i'r cyfeiriad hwnnw?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am yr holl eiriau ac ymadroddion ar gyfer diolch a moli
- Lluniwch weddi o ddiolchgarwch a moliant i Dduw

Datblygiad iaith Gymraeg

- bendithion
- rhoi diolch

Datblygiad corfforol

- Rhowch gynnig ar ymarfer pob un o'r safleoedd gweddïo Mwslimaidd (**Gweithgaredd 9**)
- Dewiswch un safle i'w wneud eto, a meddyliwch tybed sut mae hyn yn gwneud i Fwslimiaid deimlo

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch fat gweddïo
- Edrychwch ar enghreifftiau o gelf Fwslimaidd ac ymateb iddyn nhw


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Archwiliwch iaith y corff a beth mae'n ei olygu
- Pam mae angen ystafelloedd gweddïo ar Fwslimiaid?

Datblygiad mathemategol

- Lluniwch batrymau geometrig ar gyfer y mosg
- Amcangyfrifwch faint o bobl allai ffitio i mewn i'r neuadd weddïo





Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Safleoedd gweddïo Mwslimaidd

Rhowch gynnig ar ymarfer pob un o'r safleoedd gweddïo Mwslimaidd.





Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch pam fod dŵr mor bwysig ar gyfer bywyd
- Archwiliwch yr holl wahanol ffyrdd mae pobl yn defnyddio dŵr

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Lluniwch stori am ddiwrnod glawog
- Chwaraewch rôl bywyd teulu mewn gwlad lle nad yw byth yn bwrw glaw

Datblygiad iaith Gymraeg

- rhodd
- bywyd

Datblygiad corfforol

- Crëwch ddawns i ddiolch am ddŵr
- Defnyddiwch eich corff i ddarlunio gwahanol fathau o law, o fwrw glaw mân i arllwys glaw trwm

Datblygiad creadigol

- Lluniwch arddangosfa o wahanol ffyrdd o ddefnyddio dŵr, gan ddefnyddio'r teitl 'Diolchwn am ddŵr'
- Cyfansoddwch gerddoriaeth i ddathlu dŵr

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Cerddwch o gwmpas yn cyfarch y naill a'r llall mewn gwahanol ffyrdd
- Archwiliwch pa weithgareddau rydych chi'n eu gwneud gydag eraill, a pha weithgareddau rydych chi'n eu gwneud ar ben eich hun. Gofynnwch, pam mae pobl yn gweddio gyda'i gilydd? (**Gweithgaredd 10**)

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch y diferion glaw yn y llun
- Casglwch a chadwch gofnod o ddŵr glaw sy'n disgyn dros gyfnod penodol

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol




Cwestiynau



Dylanwad



Fy gweithgareddau

Gweithgareddau y byddaf yn eu gwneud gydag eraill	Gweithgareddau y byddaf yn eu gwneud ar ben fy hun
 Pêl-droed	 Cysgu

- Pam mae pobl yn gweddïo ar ben eu hunain?
- Pam mae pobl yn gweddïo gyda'i gilydd?



Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl a rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5



Agwedd ar yr ystod

Archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio sut a pham mae elusennau crefyddol yn helpu pobl sydd heb ddŵr rhedegog.

Maes dysgu

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am bob sydd heb ddŵr rhedegog.



Agwedd ar yr ystod

Ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan ynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio arwyddocâd crefyddol a symbolaeth dŵr.

Maes dysgu

Datblygiad creadigol

- Cyfansoddwch gân gan ddefnyddio synau dŵr a thywod.



Tudalennau 6-7

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Mynegi <i>ymatebion personol</i> gwestiynau personol, crefyddol a moesol. Mynegi <i>ymatebion personol</i>/i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Holwch ynghylch beth sy'n gwneud rhew yn yr oergell ac ager yn y tegell.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn <i>cwestiynau</i> ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam mae dŵr mor bwysig i fywyd dynol. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Dychmygwch sut beth yw bod yn sychedig iawn.
---	--



Tudalennau 8-9



Agwedd ar yr ystod

Archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio ein cyfrifoldeb i ofalu am blanhigion.

Maes dysgu

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Plannwch hadau, eu dyfrhau, a'u gweld yn tyfu.



Agwedd ar yr ystod

Mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio ymatebion personol i harddwch gerddi a pharciau.

Maes dysgu

Datblygiad creadigol

- Ewch am dro ac edrychwch ar rai gerddi neu barc.



Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, obl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio deddfau bwyd Mwslimaidd sy'n gysylltiedig â physgod a bwydydd môr eraill. Datblygiad corfforol Cymrwch arnoch eich bod yn rhwyfo cwch ar afon, a thaflwch eich rhwyd i'r dŵr.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio'r stori Fwslimaidd am y creu, lle'r oedd Allah yn creu'r holl greaduriaid sy'n 'cerdded, <i>nofio</i>, cropian neu'n ehedeg ar wyneb y ddaear'. Datblygiad creadigol Dyluniwch a thynnwch lun eich pysgodyn arbennig chi eich hunan.
---	---



Tudalennau 12-13

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio'r synau a'r teimladau y byddai Mwslim yn cael profiad ohonyn nhw wrth ymolchi a pharatoi ar gyfer gweddïo. Datblygiad corfforol Rhowch gynnig ar olchi eich dwylo yn y ffordd orau.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam mae Mwslimiaid yn ymolchi mor drylwyr yn y ffordd hon cyn gweddïo. Datblygiad mathemategol Sawl gwaith y dydd mae plant eich dosbarth yn golchi eu dwylo.
---	---




Tudalennau 14-15

Agwedd ar yr ystod	Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio arwyddocâd crefyddol tynnu esgidiau.
Maes dysgu	Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Dysgwch pam mae Mwslimiaid yn tynnu eu hesgidiau cyn mynd i mewn i'r mosg.




Agwedd ar yr ystod	Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio eich ymateb personol i dynnu eich esgidiau cyn gwneud gweithgaredd arbennig fel gweddïo.
Maes dysgu	Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu Siaradwch am bwysigrwydd mynd heb esgidiau.





Tudalennau 16-17

Agwedd ar yr ystod	Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a rhoi arweiniad iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio dylanwad surah 5 ar sut mae Mwslimiaid yn ymddwyn.	
Maes dysgu	<i>laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Darllenwch surah 5 o'r Qur'an ynghylch ymolchi cyn gweddïo.	

Agwedd ar yr ystod	Cael mewnwelediad i grefydd, obl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio'r patrwm gweddïo y mae Mwslimiaid yn ei ddilyn.	
Maes dysgu	<i>Datblygiad Mathemategol</i> Holwch ynghylch amseroedd gweddïo Mwslimiaid, a'u cofnodi ar dempledi cloc.	



Tudalennau 18-19

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio'r patrwm y mae Mwslimiaid yn ei ddilyn wrth iddyn nhw ymolchi cyn gweddïo. Datblygiad corfforol • Chwaraewch rôl Aled a Siân yn ymolchi, gan ddisgrifio i eraill yr hyn rydych chi'n ei wneud.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau yngŷlŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio geiriau'r bismillah a holi ynghylch beth yw eu hystyr. Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu • Beth mae'r bismillah yn ei ddweud wrthydh chi am Allah?
---	--




Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio pam mae dinas sanctaidd Mecca yn lle arbennig i Fwslimiaid. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Holwch ynghylch pa gyfeiriad y bydd Mwslimiaid yn ei wynebu wrth weddïo.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio gwahanol steil o fatiau gweddïo Mwslimaidd, y patrymau sy'n cael eu defnyddio, a phan maen nhw wedi cael eu dewis. Datblygiad creadigol Dyluniwch fat gweddïo.
---	--



Tudalennau 22-23



Agwedd ar yr ystod

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.


Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio beth sydd gan y stori Fwslimaidd am y creu i'w ddweud am ddŵr, ac o ble y daeth.

Maes dysgu

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch pam mae dŵr mor bwysig ar gyfer bywyd.



Agwedd ar yr ystod

Archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio sut mae gwahanol grefyddau'n diolch i Dduw, a sut mae hyn yn dylanwadu ar fywydau pobl.

Maes dysgu

Datblygiad corfforol

- Crëwch ddawns i ddiolch am ddŵr.